# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

# DYDD IAU, 19 IONAWR 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
J.K. Howell

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
W.T. Evans

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd (Yn rhithwir)**
Cynghorydd S.A. Curry

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Chamber - County Hall, Carmarthen. SA31 1JP and remotely - 10.00 - 11.30 yb**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 2. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 3. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gafwyd gan Ms Carys Ifan, ar ran Canolfan S4C Yr Egin, yn gofyn am argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio ffilmiau a oedd yn ddiddosbarth yn flaenorol.

Nododd yr Is-bwyllgor y dylai'r ffilmiau a ddangosir gael argymhelliad ynghylch caniatáu i blant eu gwylio a roddwyd naill ai gan gorff Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau

Prydain neu gan yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, a hynny er mwyn bodloni gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Er mwyn galluogi'r Is-bwyllgor i wneud yr argymelliadau gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilmiau, cafodd gyfle i wylio'r ffilmiau, gan roi ystyriaeth i'r canllawiau ynghylch y graddau oedran a luniwyd gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd gerbron,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y ffilmiau o'r enw 'Affairs of the Art', 'Other Half', 'Sauna', 'Freedom Swimmer', 'In Nature', 'Shift', 'NOMINO SUKUNE', 'Crafty Witch' a 'Blending In' yn cael eu dosbarthu'n ffilmiau gradd 15.**

________________________ ________________

**CHAIR** **DATE**